# Staff y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd

*10/08/2012*

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 25 Gorffennaf, pan wnaethoch ofyn y canlynol:

*Yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, hoffwn gael y wybodaeth a ganlyn mewn perthynas â Llywydd a Dirprwy Lywydd y Cynulliad:*

1) *Sawl aelod o staff sy'n cael eu cyflogi gan a) y Llywydd a b) y Dirprwy Lywydd yn rhinwedd eu swyddi craidd fel Aelodau Cynulliad, ac NID i'w helpu i gyflawni swyddogaethau'r Llywydd fel rhan o staff y gwasanaeth sifil?*
2) *Sawl un o'r aelodau staff hyn sydd â phàs diogelwch i adeilad y Cynulliad Cenedlaethol?*

1) Mae'r Llywydd yn cyflogi pedwar aelod o staff cymorth (cyfuniad o staff rhan amser a staff cyfwerth ag amser llawn) sy'n ei chefnogi yn y gwaith o fod yn Aelod Cynulliad, ac mae'r Dirprwy Lywydd yn cyflogi tri aelod o staff cymorth. Mae penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar dreuliau'r Aelodau yn datgan y caiff Aelodau hawlio lwfans i dalu cyflog i hyd at dri aelod o staff cyfwerth ag amser llawn (111 awr). Os hoffech ddarllen y penderfyniad hwn ar wefan y Cynulliad, cliciwch ar y linc a ganlyn: http://www.assemblywales.org/cy/memhome/pay-expenses-financial-interests-standards/mem-expenses-2.htm

2) Mae gwybodaeth am basys diogelwch wedi'i heithrio o'r gyfundrefn ddatgelu o dan adran 24 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan: http://www.assemblywales.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm


Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8393
E-bost/Email:Alison.Rutherford@cymru.gov.uk

Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Alison Rutherford**
**Y Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn gywir yn eich barn chi, neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan: http://www.cynulliadcymru.org/help/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Alison Rutherford**
**Y Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**